**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

I S - D D E D D F W R I A E T H

# 2006 Rhif 14

# GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Cyfarwyddiadau Cyfrinachedd a Datgelu Gwybodaeth: Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a Gwasanaethau Meddygol gan Ddarparwyr Amgen 2006

*Wedi'i wneud* *7 Mawrth 2006*

*Yn dod i rym* *8 Mawrth 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 16BB(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**a**) a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, yn gwneud y Cyfarwyddiadau canlynol:

**Cymhwyso, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) O ran y Cyfarwyddiadau hyn, a enwir Cyfarwyddiadau Cyfrinachedd a Datgelu Gwybodaeth: Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a Gwasanaethau Meddygol gan Ddarparwyr Amgen 2006, rhoddir hwy i Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru a deuant i rym ar 8 Mawrth 2006.

(2) Yn y Cyfarwyddiadau hyn—

ystyr "Deddf 1977" *("1977 Act")* yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977;

ystyr "contract APMS" *("APMS contract")* yw trefniadau a wneir o dan adran 16CC(2)(b) o Ddeddf

(**a**) 1977 p.49. Mewnosodwyd adran 16BB Gorchymyn Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17) ("Deddf 2002") adran 6(1) a ddiwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p.43), adran 184 ac Atodlen 11, paragraffau 7 a 10.

1977 ar gyfer darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol(**b**);

ystyr "contract rhagosodedig" *("default contract")* yw contract o dan erthygl 13 o Orchymyn Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (Cymru) 2004(**c**);

ystyr "Contract GMS" *("GMS Contract")* yw contract o dan adran 28Q o Ddeddf 1977(**d**);

ystyr "Rheoliadau Contractau GMS" *("GMS Contract Regulations")* yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ) (Cymru) 2004(**e**).

**Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer: Cyfrinachedd a Datgelu Gwybodaeth**

**2.** Wrth arfer unrhyw swyddogaeth, neu wrth orfodi unrhyw hawl neu rwymedigaeth, yn unol â—

(a) teler o Gontract GMS sy'n rhoi effaith i baragraff 76 (darparu gwybodaeth) neu 79 (adolygiad blynyddol) o Atodlen 6 i Reoliadau Contractau GMS;

(b) unrhyw delerau cyfatebol i'r rheini a bennir ym mharagraff (a) mewn contract rhagosodedig; neu

(c) unrhyw delerau cyfatebol i'r rheini a bennir ym mharagraff (b) mewn contract APMS,

rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol, i'r graddau y mae'n berthnasol wrth iddo arfer y swyddogaeth honno, neu wrth iddo orfodi'r hawl honno neu'r rhwymedigaeth honno, weithredu yn unol â pharagraffau 19 i 29, 30, 34 i 37 a 39 o'r ddogfen sy'n dwyn y teitl "Cod Ymarfer Cyfrinachedd a Datgelu Gwybodaeth: Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) a Gwasanaethau Meddygol gan Ddarparwyr Amgen(APMS)" dyddiedig 13 Hydref 2005(**f**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

7 Mawrth 2006

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

---

(**b**) Mewnosodwyd adran 16CC yn Neddf 1977 gan adran 174 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p. 43) ("Deddf 2003").

(**c**) O.S. 2004/477 (Cy.47).

(**d**) Mewnosodwyd adran 28Q yn Neddf 1977 gan adran 175(1) o Ddeddf 2003.

(**e**) O.S. 2004/478 (Cy.48).

(**f**) Mae copi o'r Cod Ymarfer hwn ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn http://www.cymru.nhs.uk/gms